

Gwybodaeth atodol CBAC: myfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig ac/neu anabledau.

Dylai ysgolion a cholegau ddefnyddio'r profiad proffesiynol sydd ganddyn nhw i lunio barn yn deg a gwrthrychol am y radd maen nhw'n credu y byddai myfyriwr wedi'i hennill pe byddai'r addysgu a'r dysgu wedi mynd ymlaen yn ôl yr arfer eleni a'i fod wedi gallu sefyll ei arholiadau. Yn achos myfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig ac/neu anabledau (SEND), dylai ysgolion a cholegau wneud y penderfyniad gan gymryd bod myfyrwyr wedi parhau i dderbyn unrhyw gefnogaeth dysgu ychwanegol arferol.

Os cytunwyd ar addasiadau rhesymol i fyfyrwyr ar gyfer eu harholiadau, dylai ysgolion a cholegau hefyd ystyried sut byddai'r myfyriwr hwnnw wedi cyflawni pe byddai'r rhain yn weithredol. Yn yr un modd â'r holl fyfyrwyr, os cwblhawyd unrhyw waith ychwanegol ar ôl cau'r ysgolion a'r colegau ar 20 Mawrth, dylai Penaethiaid Canolfannau arfer gofal os yw'r dystiolaeth honno'n awgrymu bod cyflawniad gryn dipyn yn well neu'n waeth nag yr oedd cyn 20 Mawrth. I rai myfyrwyr SEND, gall hyn gyfleu'r ffaith bod problemau wedi bod yn cael mynediad at ddysgu o bell ac at y gefnogaeth ddysgu y bydden nhw fel arfer yn ei derbyn. Dylai ysgolion a cholegau gysylltu â gweithwyr addysgol eraill sydd wedi cydweithio'n agos â myfyrwyr SEND i weld a ydyn nhw'n gallu darparu gwybodaeth bellach i'w hystyried wrth ddod i gasgliadau terfynol ynghylch dyfarnu'r radd asesu canolfannau a gwybodaeth am drefn restrol.

Dylid casglu tystiolaeth gan weithwyr proffesiynol perthnasol er mwyn i athrawon allu bod yn sicr o'u penderfyniadau am raddau asesu canolfannau a safle'r myfyriwr ar y drefn restrol. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys gofyn am wybodaeth gan athrawon mewn ysgol neu goleg arall neu mewn darpariaeth arall megis ysbyty. Gall hefyd gynnwys athrawon cylchynol neu ymgyngorol a allai weithio gyda sawl canolfan, megis athrawon cymwys ar gyfer plant byddar, plant â nam ar y golwg a phlant â nam amlsynhwyraidd a phobl ifanc. Gallai canolfannau hefyd gysylltu â'r tîm(au) ysgol rithwir sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yn y ganolfan.

Un o'r prif flaenoriaethau eleni yw sicrhau bod y graddio eleni mor deg mor deg â phosibl i'r holl ymgeiswyr. Mae'n bwysig bod y graddau a threfn restrol yr ymgeiswyr yn seiliedig ar weithwyr proffesiynol yn ffurfio barn mewn ffordd wrthrychol a chyfannol ac yn defnyddio'r holl dystiolaeth ddibynadwy sydd ar gael iddyn nhw i wneud hynny.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch trefniadau mynediad, anfonwch neges e-bost at:

specialrequirements@wjec.co.uk